# Manifesto
# Comisiynwyr Heddlu a Throsedd 2021
# Plaid Cymru

Plaid Cymru
Party of Wales

O BLAID
CYMRU
VOTE FOR
WALES

O BLAID CYMRU
VOTE FOR WALES

# Gwneud **Cymru'n** Saff a Diogel.

# Rhagair

Wedi ugain mlynedd o ddatganoli, does dim synnwyr yn y ffaith y gall ein Senedd wneud cyfreithiau ond nad oes ganddi reolaeth dros gyfiawnder troseddol na'r pwerau iawn i greu Cymru fwy cyfartal.

Gall **Plaid Cymru** weld cymaint o gyfleoedd i wella bywydau pobl yng Nghymru trwy allu cyflwyno diwygiadau radical yn y meysydd hyn.

Gwyddom beth yw'r problemau – nid yw Cymru yn gymdeithas gyfartal. Ond fe allwn fod, a chyda mwy o gyfartaledd fe ddaw mwy o foddhad, hapusrwydd a llai o broblemau cymdeithasol.

**Mae gan Blaid Cymru yr uchelgais i ddatrys y problemau hyn trwy wneud y canlynol:**


1.**Datganoli'r system cyfiawnder** troseddol yn llawn – heddlu, carchardai, gwasanaeth prawf a'r llysoedd er mwyn i ni allu creu system cyfiawnder tecach a mwy cyfartal.

2. Rhoi blaenoriaeth i strategaeth sy'n **cau'r bwlch economaidd** a manteisiol trwy godi i fyny'r bobl hynny sydd â'r lleiaf a **mynd i'r afael â'r camwahaniaethu** sy'n gwreiddio anghydraddoldeb.

3. Diwygio polisïau ynghylch **defnyddio sylweddau**, gan roi blaenoriaeth i driniaeth a chefnogaeth i'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl o niwed.

Bydd **etholiad y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd** ar 6 Mai yn gyfle i bleidleisio am ffordd wahanol o drefnu ein pwerau dros blismona a chyfiawnder.

Mae pleidlais i **Blaid Cymru** yn cynnig agwedd Gymreig at gyfiawnder a phlismona, ac yn caniatáu i ni ganfod atebion i'r heriau unigryw sy'n ein hwynebu, a fydd yn y pen draw yn rhoi i ni le mwy cyfiawn, cyfartal a saff i ni i gyd fyw gyda'n gilydd.





Adam Price AS, arweinydd Plaid Cymru

# Pam rydyn ni am ddatganoli plismona a chyfiawnder i Gymru

Argyfwng o bwys, poblogaeth ofnus yn teimlo dan warchae, ac awyrgylch wleidyddol ddi-drefn a strwythurau democrataidd aneffeithiol - mae'r rhain oll yn bresennol ym mhandemig Covid-19 . Ychwanegwch at hynny wendid ein cyfryngau a'n strwythurau democrataidd, a dyna i chi storm berffaith.

Ar lefel Llywodraeth Cymru, rydym wedi gweld sut y gall Cymru ddewis gwneud pethau'n wahanol. Bu effaith y feirws ar iechyd cyhoeddus, gyda miloedd o fywydau wedi eu colli, a miloedd mwy wedi dioddef yr effeithiau, yn erchyll. Tra bod y Torïaid yn honni bod rheoliadau cloi gwahanol yng Nghymru yn ddryslyd, gan awgrymu y dylai Cymru fodloni ar ei lle a gwrando ar ei meistri, rydym wedi gweld fod pobl Cymru i raddau helaeth wedi gwrando ar reoliadau a wnaed yng Nghymru sydd yn caniatáu i ni ddilyn ein llwybr ein hunain mewn ymateb i'r argyfwng hwn.

Mae hyn yn ddiamau yn cryfhau'r achos dros ddatganoli pellach ac yn y pen draw dros yr hawl i benderfynu a chreu polisïau ar draws pob maes yn y dyfodol trwy annibyniaeth. Petai gennym fwy o reolaeth dros feysydd polisi allweddol - gan gynnwys lles, cyfiawnder a phlismona - gallasai Cymru fod wedi mynd ymhellach i ymateb i'r argyfwng a lliniaru peth o'i effeithiau ar rai o'n dinasyddion a'n cymunedau mwyaf bregus. Mae amharodrwydd Llafur Cymru i ganiatáu i Gymru sefyll ar ei thraed ei hun wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y cyfleoedd coll hyn.

Mae'r Bil Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd sy'n mynd ar ei daith ddeddfwriaethol trwy San Steffan ar hyn o bryd yn enghraifft arall o pam mae angen i ni ddatganoli cyfiawnder i Gymru. Mae llu o newidiadau sylweddol y Bil, gan gynnwys pwerau newydd i gyfyngu ar brotest ac ehangu stopio a chwilio, yn sicr o waethygu'r anghydraddoldebau presennol yn ein system cyfiawnder troseddol. Bydd yn mynd i'r afael â'r hawl i brotest heddychlon sydd wedi bod yn offeryn hanfodol i ysgogi newid llywodraethol - o Mae Bywydau Du o Bwys i brotestiadau Extinction Rebellion. Rydym i gyd yn gwybod y bydd mesurau stopio a chwilio y Bil yn targedu pobl ddu yn anghymesur. Mae datganoli pwerau dros gyfiawnder yn hanfodol er mwyn darparu system gyfiawnder decach, fwy trugarog a mwy atebol. Byddai'n caniatáu inni weithredu mentrau fel 'llysoedd datrys problemau' sy'n gofyn am gydweithrediad agos gyda gweithwyr prawf a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gadewch i ni fynnu'r arfau i wneud pethau drosom ein hunain ac adeiladu system well a gwireddu ein gweledigaeth sydd yn ateb gofynion ein dinasyddion. Yn hytrach na bod ar frig y tabl o ran carcharu pobl, gallai Cymru greu system decach a thrawsnewidiol a allai fod yn oleuni disglair dros gyfiawnder ledled y byd.

## Datganoli Plismona

Cymru yw'r unig genedl yn y DG heb bwerau dros ei systemau plismona a chyfiawnder. Mae plismona wedi'i ddatganoli yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a hyd yn oed Manceinion - beth am Gymru?

Pe bai plismona'n cael ei ddatganoli, byddai heddluoedd Cymru yn derbyn £25 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol - mae hynny'n cyfateb i 900 o heddweision ychwanegol.

Mae Cymru yn dibynnu ar drugaredd fformiwla cyllido heddlu San Steffan sy'n rhoi mwy o arian i ddinasoedd mawr yn Lloegr.

Mae trethdalwyr Cymru eisoes yn talu mwy tuag at eu heddlu lleol trwy awdurdod y Cyngor. Mae Plaid Cymru eisiau dod â'r annhegwch hwn i ben, a bydd datganoli plismona yn helpu i gyflawni hynny.

# Chwe Addewid i Wneud Cymru'n Saffach

## 1 Herio Llywodraeth y DG i sicrhau Fformiwla Cyllido Deg i Gymru

Mae cyllidebau'r heddlu wedi eu torri a heddluoedd Cymru wedi eu taro'n galetach na'r rhai yng ngweddill y DG, oherwydd fformiwla gyllido annheg. Mewn rhai ardaloedd, fel gogledd Cymru, trethdalwyr lleol sy'n talu am dros 50 y cant o gyllideb yr heddlu er mwyn gwneud iawn am y diffyg cefnogaeth a roddir gan San Steffan, swm mawr o'i gymharu â'r 30 y cant sy'n cael ei gyfrannu gan drethdalwyr lleol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Northumbria. Byddwn yn brwydro dros gyllid cyfartal sydd yn ystyried costau ychwanegol plismona ardaloedd gwledig. Byddwn yn mynnu cael Cyllid Prifddinas i Gaerdydd, arian sydd eisoes yn cael ei ddarparu i heddluoedd yn Llundain, Caeredin a Belfast. Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau bod ein heddluoedd yn cael arian a chefnogaeth ddigonol yw trwy ddatganoli'r gwasanaethau hyn i Gymru.

## 2 Cynnal ein gwasanaethau plismona lleol cryf fydd yn ymateb i droseddau, a chynnal ymchwiliadau

Cred Plaid Cymru y dylai'r heddlu fod yn weladwy, yn dryloyw, atebol a hygyrch. Fe wnawn yn siŵr bod yr heddlu'n integreiddio'n well i'r gymuned leol. Bydd hyn yn cynnal ymddiriedaeth, yn gwella cydweithredu, lleihau ofn a gofalu bod yr heddlu ar gael i roi cymorth a gwasanaethau i'r cyhoedd. Cred Plaid Cymru ei bod yn hanfodol fod y gymuned leol yn cael ei chynnwys a bod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau. Byddwn yn hwyluso fforymau i'r heddlu a chymunedau gyfnewid barn ar faterion sydd o bwys i'r naill ochr a'r llall. Yr ydym yn deall y gwahaniaethau rhwng plismona ardaloedd gwledig a threfol. Fe wnawn yn siŵr fod cymunedau gwledig yn gwybod pwy yw eu heddweision a lle i gael cefnogaeth. Fe wnawn gynllunio i ddefnyddio staff mewn lifrai i ymateb i bwysau tymhorol mewn ardaloedd gwledig yn ystod yr haf pan fo poblogaeth twristiaid yn uchel.

## 3 Lleihau Troseddu ac Aildroseddu

Rhaid ymdrin ag achosion troseddu. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y system fudd- daliadau, mwy o dai fforddiadwy, a pholisi economaidd fydd yn helpu i liniaru tlodi. 4 Gwyddom fod y bobl hynny sydd wedi dioddef pedwar neu fwy o Brofiadau Andwyol mewn Plentyndod (PAP) 14 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais ac 20 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi eu carcharu ar ryw adeg yn eu bywydau. Bydd Plaid Cymru yn defnyddio agwedd ataliol o leoliadau iechyd, cyfiawnder troseddol, addysg ac eraill i fynd i'r afael â PAP wrth iddynt ddigwydd a'r ymddygiad troseddol posib sy'n arwain o hyn. Ymyriad cynnar fydd yn allweddol i'n ffordd o weithio.

## 4 Diogelu'r Rhai Bregus a Gwella Cefnogaeth i Ddioddefwyr

Byddwn yn cefnogi dioddefwyr ac yn lleihau cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy ddysgu plant am berthynas o barch. Fe wnawn yn siŵr fod Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn cael arian digonol gyda hyfforddiant addas i'r bobl broffesiynol sy'n gweithio yno. Fe wnawn yn siŵr hefyd fod gwasanaethau cwnsela ar gael ac yn derbyn cyllid digonol oherwydd gall dioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig ddioddef o amrywiaeth o broblemau yn ymwneud ag iechyd meddwl a cham- ddefnyddio cyffuriau ac alcohol hefyd. Byddwn yn parhau i ymwneud â mudiadau fel y Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern mewn heddluoedd a chyda'r cyhoedd.

Mae gan dros 90 y cant o garcharorion yng Nghymru o leiaf un cyflwr iechyd meddwl. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth a Byrddau Iechyd i ddatblygu mwy ar ein dealltwriaeth o'r anghenion sy'n gysylltiedig ag afiechyd meddwl. Ein blaenoriaeth yw cefnogi pobl mewn argyfwng, yn hytrach na dibynnu ar garchardai. Byddwn yn gweithio i gefnogi trosi troseddwyr o'r carchar i gymunedau Cymru, gyda phwyslais ar adsefydlu fel allwedd i ostwng troseddau. Byddwn yn gwrthwynebu symudiadau i gynyddu nifer y llefydd mewn carchar i ddynion yng Nghymru, ac yn ceisio carcharu llai o droseddwyr o fenywod y tu allan i Gymru lle bo modd trwy gefnogi dewisiadau eraill o ddedfrydu mewn canolfannau cyfiawnder i fenywod.

Mae Plaid Cymru yn addo gweithredu, gan gynnwys cefnogi dioddefwyr i fod yn fwy hyderus i roi tystiolaeth, gan gynyddu cyfraddau euogfarnau. Mae'n ddyledus arnom i ddioddefwyr i gynnig pob cefnogaeth iddynt, felly byddwn yn deddfu ar God Ymarfer y Dioddefwyr pan ddatganolir cyfiawnder.

## 5 Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb

Rhaid i ddioddefwyr troseddau casineb fod â'r hyder i ddod ymlaen i sôn am y troseddau hyn, gan deimlo'n saff y cânt eu trin yn iawn a chyda chydymdeimlad gan y gwasanaeth heddlu.

Yr ydym wedi ymrwymo i wrthweithio Islamoffobia, gwrth-Semitiaeth, teimladau gwrth-fewnfudwyr, teimladau yn erbyn Sipsiwn a Roma a Theithwyr, a phob ffurf o hiliaeth a rhagfarn mewn gwleidyddiaeth, ar ein strydoedd, ar-lein ac yn ein cyfryngau. Byddwn yn rhoi'r gefnogaeth briodol i wasanaethau dioddefwyr troseddau casineb, ac yn craffu ar gwynion i'r Adran Safonau Proffesiynol ynghylch dioddefwyr troseddau casineb.

I fynd i'r afael â throseddau casineb, bydd ein Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn:

- Gwella hyfforddiant i'w holl heddweision a staff rheng-flaen i nodi a chofnodi troseddau casineb, gwell cefnogaeth i ddioddefwyr a dwyn troseddwyr i gyfrif;
- Gwella hyder mewn adrodd amdanynt trwy ddweud ar goedd eu bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddau casineb a'i gwneud yn haws i adrodd;
- Gweithio gyda'r cymunedau sydd wedi eu taro waethaf gan droseddau casineb i ennyn hyder cymunedau yn y system.

## 6 Creu Unedau Troseddau Economaidd

Mae bylchau mewn gwasanaethau i bobl fregus sy'n cael eu hecsploetio gan ddulliau twyll traddodiadol a thwyll seibr. Mae seibrdroseddu yn cynyddu, a thueddiadau newydd yn dod i'r amlwg yn gyson. Rhaid i heddluoedd ymgyfarwyddo â thechnolegau newydd, i ddeall y posibiliadau maent yn eu creu i droseddwyr a sut y gellir eu defnyddio i frwydro yn erbyn seibrdrosedd. Bydd Plaid Cymru yn sefydlu Unedau Troseddau Economaidd a fydd yn gallu ymchwilio i dwyll personol a busnes, gan roi blaenoriaeth i achosion sy'n effeithio ar y mwyaf bregus. Byddwn hefyd yn sefydlu Uned Ymchwilio Ariannol fydd yn cynyddu ein gallu i adnabod ac adfeddiannu enillion trosedd. Bydd ein heddluoedd yn arwain ymgyrchoedd i addysgu pobl ar sut i'w hamddiffyn eu hunain rhag seibrdrosedd a lle i gael help os byddant yn dioddef.

# Pum Mlynedd o Lwyddiannau 2016-2021

## Comisiynwyr Heddlu a Throsedd:

- Yw llais y bobl i ddal yr Heddlu i gyfrif.
- Sy'n goruchwylio cyflwyno gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i leihau troseddu ac aildroseddu.
- Sy'n gosod cyfeiriad strategol i'r Heddlu, gan weithio â phartneriaid megis Byrddau Diogelwch Cyhoeddus a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

**Mae ein Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Ngogledd Cymru a Dyfed-Powys wedi gweithio'n ddiflino dros y pum mlynedd niferus:**

- Datblygu **Timau Seibrdrosedd** i ymchwilio i seibrdrosedd a'i atal.
- Creu **Goleudy** yn **Nyfed Powys**, un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau cefnogi. Rydym eisiau gweld gwasanaeth tebyg ar gael ym mhob ardal heddlu.
- **Yr NFU** yn defnyddio gogledd Cymru fel astudiaeth achos i fynd i'r afael â throseddu gwledig. Creodd **Heddlu Dyfed-Powys** gynlluniau fel **Farmwatch** a **Horse Watch** i roi cyngor ar atal troseddau.
- Penodi swyddog cefnogaeth unswydd cyntaf y DG dros gaethwasiaeth fodern yng ngogledd Cymru.
- Sefydlu gwasanaeth triage iechyd meddwl yn **Nyfed Powys** lle mae heddweision a gweithwyr **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** yn gweithio ochr yn ochr i sicrhau bod y sawl sy'n dioddef loes feddyliol yn cael y sylw a'r gofal iawn.
- Lansio **Checkpoint Cymru** yn y gogledd sy'n cyfeirio troseddwyr lefel isel ymaith oddi wrth gyfiawnder troseddol.
- Defnyddio agweddau cyfiawnder adferol yn **Nyfed Powys**, gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng dioddefwr a throseddwr, a arweiniodd at gyfradd boddhad o 85 y cant.
- Ymgyrchu am **bolisi cyffuriau blaengar** gyda mwy o bwyslais ar leihau niwed.
- Derbyn arolygon hyder y cyhoedd sy'n dangos graddfa uchel o hyder yn y ddau lu.
- Lansio Cronfa Ymyriad Cynnar 3-blynedd gwerth £800,000 gyda chyllid cyfatebol i gefnogi agenda ataliol **Heddlu Gogledd Cymru** o ymdrin â phrofiadau andwyol mewn plentyndod fel un o achosion sylfaenol troseddu.
- Sefydlu'r tîm **Onyx** yn y gogledd i fynd i'r afael â cham-fanteisio rhywiol ar blant.
- Adfer CCTV i drefi ledled **Dyfed Powys**.

# Ein Hagwedd Bolisi Tuag at Blismona a Chyfiawnder

## Atal Troseddau

Dros y blynyddoedd diwethaf, daethom i ddeall mwy am y berthynas rhwng Profiadau Andwyol mewn Plentyndod (PAP) a throseddu a charcharu yn y dyfodol. Dangosodd astudiaeth i PAP Cymru ym Mhrifysgol Bangor fod y rhai â phedwar neu fwy o PAP 14 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais dros y 12 mis diwethaf, 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trosedd dreisiol ac 20 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi eu carcharu yn ystod eu hoes.

Cred Plaid Cymru mai agwedd ataliol gyda chydweithredu ar draws iechyd, cyfiawnder troseddol ac addysg sydd fwyaf effeithiol o ran trin troseddu ieuenctid. Profwyd fod ymdrin ag achosion sylfaenol troseddu, megis gwarchod plant rhag camdriniaeth neu esgeulustod, a mynd i'r afael â thlodi plant, yn lleihau ymddygiad troseddol.

Cred Plaid Cymru y dylai Cymru fabwysiadu polisi 'system gyfan' seiliedig ar y model Albanaidd lle defnyddir atal, ymyriad cynnar a chefnogaeth amlddisgyblaethol i gyfeirio plant a phobl ifanc ymaith oddi wrth droseddu. Mae hyn yn fwy effeithiol na dibynnu ar ddedfrydau byr o garchar nad ydynt yn cynnig fawr ddim cyfle i adsefydlu. Dylai Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio rhwydweithiau o gwnselwyr plant arbenigol. Dylai'r rhain cael eu cysylltu â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc estynedig, sy'n cynnwys llety preswyl seiciatryddol. Mae angen integreiddio asesu a gofalu anghenion plant a'u cydgordio yn ganolog.

### Beth rydym yn ei wneud eisoes...

Mae Cynllun Cyfeirio Troseddwyr Dyfed-Powys yn galluogi troseddwyr lefel isel i gael cefnogaeth a chanllawiau i'w cadw allan o'r system cyfiawnder troseddol. Cynllun peilot a sefydlwyd yn 2016 oedd hwn ac y mae wedi ehangu ers hynny. Nod y fenter yw taclo achos sylfaenol troseddu ac y mae'n defnyddio agwedd amlasiantaethol i gynnig help ac ymyriadau wedi eu teilwrio.

### Beth rydym yn ei wneud eisoes...

Cynllun yw Checkpoint Cymru yn y gogledd sy'n ceisio rhoi dewis credadwy yn lle erlyn trwy nodi a chefnogi anghenion a'r 'llwybrau critigol' allan o droseddu. Ei nod yw gostwng aildroseddu o 20-30 y cant a chynnig cyfle i droseddwyr lefel isel lofnodi contract yn cytuno i newid eu dull o fyw yn hytrach na chael eu herlyn.

# Iechyd Meddwl

Dylai pobl ag afiechyd meddwl gael eu trin gan y gwasanaeth iechyd yn hytrach na'u cadw gan yr heddlu. Ac eto, mae pobl yn y system cyfiawnder troseddol yn fwy tebygol na'r boblogaeth yn gyffredinol o ddioddef o broblemau iechyd meddwl. Yng Nghymru a Lloegr, mae gan dros 90 y cant o garcharorion o leiaf un o bum anhwylder seiciatryddol, gyda 23 y cant o garcharorion wedi bod mewn cysylltiad blaenorol â'r gwasanaethau iechyd meddwl.

Gwelir yr heddlu'n aml fel y 'gwasanaeth brys cyntaf' i bobl mewn argyfwng iechyd meddwl. Byddwn yn parhau i ddweud yn glir wrth Lywodraeth Cymru fod angen cynyddu darpariaeth iechyd meddwl yn y gwasanaeth iechyd.

## Byddwn yn:

- Gweithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd a phartneriaethau eraill i wella'r ymateb i bobl a phroblemau iechyd meddwl, yn benodol ein gallu i adnabod bregusrwydd a thargedu gwasanaethau a chefnogaeth i helpu pobl mewn argyfwng.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl trwy gefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol.
- Ymwneud â phobl gafodd brofiad o afiechyd meddwl i wella ein dealltwriaeth o'r problemau maent yn wynebu.
- Cefnogi Prif Gwnstabliaid i sicrhau fod pobl ag afiechyd meddwl yn cael eu trin mewn lleoliad iechyd yn hytrach na'u cadw dan glo.
- Parhau â'r arferion gorau megis y Rhaglen Golau Glas a Gwasanaethau Triage Iechyd Meddwl.



**DAFYDD** LLYWELYN

**HEDDLU DYFED-POWYS**

- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyfredol.
- Cyn-ddarlithydd Criminoleg.
- Cyn-Ddadansoddwr Gwybodaeth Gudd gyda'r Heddlu.
- 20 mlynedd o brofiad gyda'r Heddlu.

# Defnyddio Sylweddau

Mae Plaid Cymru yn cefnogi dadgriminaleiddio'r defnydd o gyffuriau. Mae'r agwedd galed bresennol yn gwneud troseddwyr o ddinasyddion a all fod yn defnyddio cyffuriau'n feddygol neu i hamddena heb niweidio eraill. Nid yw troi'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau yn droseddwyr yn gwneud dim i'w helpu i drawsnewid eu bywydau.

Nid yw dadgriminaleiddio yn cyfreithloni unrhyw gyffur. Yn hytrach, mae'n newid y modd mae'r awdurdodau yn trin bod ym meddiant meintiau bach o gyffuriau, ac yn trin defnyddwyr fel rhai all fod yn fregus, yn hytrach nag fel troseddwyr.

Yn hytrach na chanoli gwasanaethau ar bawb sy'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, dylem ganolbwyntio ar y nifer cymharol fychan o bobl a dibyniaeth ac ymdrin ag achosion gwaelodol eu camddefnydd gyda rhaglenni fel Checkpoint Cymru.

Mae cyffuriau wedi eu dadgriminaleiddio ym Mhortiwgal ers 2001. Mae hyn wedi arwain at agwedd iechyd cyhoeddus o leihau niwed, darbwyllo pobl i beidio â dechrau defnyddio cyffuriau ac annog pobl sy'n gaeth i gyffuriau i gael triniaeth, gan gyfeirio adnoddau'r heddlu at y sawl sy'n elwa o'r fasnach gyffuriau.

Trwy anfon neges nad yw'r sawl sy'n defnyddio cyffuriau yn ddrwgweithredwyr, mae'r diwygiadau wedi caniatáu i fwy o ddefnyddwyr gael y driniaeth mae arnynt ei angen.

Hefyd, mae'r defnydd o gyffuriau ym Mhortiwgal wedi gostwng ers dadgriminaleiddio cyffuriau. Mae presenoldeb cyffuriau yn is na chyfartaledd yr UE ac ym Mhortiwgal bellach y mae'r gyfradd isaf o ddefnyddio canabis yn yr UE. Yn hytrach na throi mwy o bobl at gyffuriau, mae dadgriminaleiddio wedi caniatáu i bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau i dderbyn y driniaeth angenrheidiol ac wedi lleihau'r farchnad i ddrwgweithredwyr.

Mae dadgriminaleiddio hefyd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn swm y cyffuriau a gipiwyd, trwy adael i'r heddlu ail-gyfeirio eu hymdrechion at weithrediadau ar raddfa fawr, yn hytrach na defnyddwyr cyffredin.

## Bydd Plaid Cymru yn:

- Parhau i ddadlau dros ddadgriminaleiddio cyffuriau.
- Defnyddio cynlluniau cyfeirio fel Checkpoint Cymru i'r sawl a gafwyd yn euog o droseddau heb fod yn rhai treisgar, sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
- Addysgu pobl ifanc am beryglon defnyddio sylweddau, gan gynnwys eu cysylltiadau a throseddau trefnedig a all eu harwain at fywyd o gael eu hecsploetio.
- Adnabod a chwalu'r bygythiad ddaw o du grwpiau troseddu trefnedig a gweithio gydag eraill i darfu ar y math hwn o weithgaredd.
- Parhau i alw ar y Swyddfa Gartref i lanhau record droseddol y rhai a gafodd rybudd neu euogfarn o fod ym meddiant cyffuriau lle nad oes unrhyw nodweddion sy'n gwaethygu.

# Ymwneud â'r Gymuned a Throseddau Gwledig

Bydd Plaid Cymru yn hwyluso fforymau lle gall yr heddlu a'r gymuned gyfnewid barn am faterion sydd o bwys i'r naill ochr a'r llall. Byddwn yn parhau i annog ymwneud wyneb-yn-wyneb rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Byddwn yn defnyddio swyddogion plismona lleol a Swyddogion Cymunedol Cefnogi'r Heddlu i blismona ar droed a defnyddio cyfleoedd yn y gymuned i ymwneud â hwy. Bydd cysylltiadau personol rhwng yr heddlu ac aelodau'r gymuned yn eu gwneud yn gyfarwydd â'u heddweision.

## Beth rydym yn ei wneud eisoes...

Mae Dafydd Llywelyn yn Nyfed-Powys wedi buddsoddi mewn mwy o CCTV, Canolfan Blismona ac ystafelloedd Cadw cynaliadwy newydd a rôl i Heddweision Canol Trefi. Nod y mesurau hyn yw gwneud i'r cyhoedd deimlo'n saff, rhoi mwy o gyfle i gysylltu â'r heddlu yn yr ardal, a moderneiddio'r heddlu.

Yn ôl yr NFU, cynyddodd cost troseddu gwledig i economi Cymru o 41.4 y cant rhwng 2017 a 2018, gyda chost troseddu gwledig ar ei uchaf ers 2013.

Gwlad wledig i raddau helaeth yw Cymru, ac y mae troseddu gwledig yn dwyn ei heriau arbennig ei hun: gall yr heddlu orfod teithio pellteroedd maith at ddigwyddiadau ac y mae natur unig rhai cymunedau gwledig yn medru ei gwneud yn fwy anodd sylwi ar rai mathau o droseddau. Ymysg y rhain mae trais domestig a throseddau rhywiol yn ogystal â mathau o droseddau trefnedig megis masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern.

Gall troseddau penodol i gefn gwlad olygu dwyn peiriannau drudfawr neu golli da byw trwy ladrad neu ymosodiadau gan gŵn. Mae'r troseddau hyn sy'n manteisio ar gyfleoedd yn fygythiad mawr i'n ffermwyr a deiliaid ein mân-ddaliadau, ac yn cael effaith andwyol ar eu bywoliaeth.

Dan gyfarwyddyd ein Comisiynwyr yng Ngogledd Cymru a Dyfed-Powys, mae gan yr heddluoedd hyn Dîm Troseddau Gwledig unswydd. Byddwn yn cynyddu gallu ein timau troseddau gwledig i ddelio â'r galwadau cynyddol arnynt.

Yn ôl yr NFU, rhwng 2017 a 2018 cododd cost ymosodiadau gan gŵn ar dda byw o 67 y cant. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth ar ymosodiadau da byw yn ddigonol ac y mae'n rhy gyfyng. Byddwn yn pwyso am ddeddfwriaeth newydd i wneud y canlynol:

- Gwneud ymosodiadau gan gŵn yn drosedd nid yn unig ar dir amaethyddol ond hefyd i gynnwys eiddo preifat a phob man cyhoeddus.
- Mynnu bod heddluoedd yn cofnodi'n ffurfiol ymosodiadau ar dda byw, fel bod darlun unffurf o wir raddfa'r golled economaidd i'r gymuned wledig a'r effaith ar ein cyflenwad o fwyd.
- Ei gwneud yn gyfrifoldeb dan y gyfraith i berchennog ci roi adroddiad am ymosodiad.
- Rhoi'r pŵer i heddweision gymryd DNA o gi yr amheuir ei fod wedi ymosod ar dda byw.
- Rhoi pwerau i'r heddlu wahardd perchennog ci rhag bod yn berchen un yn y dyfodol oherwydd ymosodiadau ar dda byw.




# Cyfiawnder Ieuenctid

Dylai cyfiawnder ieuenctid gael ei ddatganoli i Gymru. Mae llawer o ffactorau cysylltiedig â throseddau gan ieuenctid yn dod dan wasanaethau a ddatganolwyd eisoes, megis addysg a hyfforddiant, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Yn y cyfamser, mae troseddwyr ifanc yn cael eu trin trwy wasanaethau heb eu datganoli megis yr heddlu, Timau Troseddu Ieuenctid a llysoedd ieuenctid. Credwn y dylai'r cyfrifoldeb gweinyddol dros driniaeth ac adsefydlu gael ei ddatganoli er mwyn sicrhau y byddai polisïau wedi eu hintegreiddio'n well.

## Cred Plaid Cymru:

- Y dylai'r system o gofnodion troseddol fod yn fwy sensitif i natur fyrhoedlog llawer o droseddu mewn plentyndod ac atal sefyllfa lle gall cofnodion gael eu datgelu am lawer blwyddyn wedyn, sy'n rhwystr i gyflogaeth ac yn annog aildroseddu.
- Dylai cofnodion troseddwyr ieuenctid gael eu selio ar gais, sy'n sicrhau bod y cofnod yn dal i fodoli, ac y gellir ei ystyried gan farnwyr os bydd unigolyn yn torri'r gyfraith eto yn y dyfodol, ond yn atal unigolion rhag gorfod datgelu euogfarnau mewn ceisiadau am swyddi.



**NADINE**MARSHALL

**HEDDLU DE CYMRU**

Gweithio fel cydlynydd addysgol ar draws deddwyrain Cymru.

Darlithydd mewn addysg a gofal plant.

Profiad o'r system gyfiawnder oherwydd amgylchiadau personol trychinebus. Wedi i'w mab, Conner, gael ei lofruddio, cynhaliodd Nadine ymgyrch i herio a newid polisïau'r llywodraeth ynghylch rhannu gwybodaeth, diwygio gweithdrefnau a chydnabyddiaeth i deuluoedd.

# Cyfiawnder i Fenywod

Mae menywod yn y system carchardai yn fwy tebygol na dynion i gael dedfrydau byrrach. Yn 2016, cafodd 74 y cant o'r holl fenywod a gafwyd yn euog ddedfrydau o lai na 6 mis. Serch hynny, y mae dedfrydau byrion yn aml yn tarfu llawer ar fywydau menywod a'u teuluoedd. Un canlyniad yw bod menywod sy'n cwblhau dedfrydau byr yn fwy tebygol o aildroseddu na'r rhai a ddedfrydwyd i orchymyn llys. Mae plant menywod sy'n troseddu yn fwy tebygol o gael eu gorfodi i adael y cartref teuluol na phlant dynion sy'n troseddu.

Mae menywod hefyd yn cael eu carcharu'n amlach o lawer am ddwyn yn hytrach na throseddau treisgar. Yn aml, maent yn dwyn i fwydo eu plant neu i gefnogi cymar sydd ar gyffuriau. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai bu tua hanner y menywod yn ddioddefwyr troseddau sy'n fwy difrifol na'r rhai y carcharwyd hwy eu hunain amdanynt.

Byddwn yn defnyddio dedfrydau gohiriedig, trwy gynlluniau fel Checkpoint Cymru, i'r menywod hynny a gyhuddir o droseddau heb fod yn rhai treisgar, gan darfu llai arnynt hwy a'u teuluoedd.



## Y CYNGH. **DONNA** CUSHING

HEDDLU GWENT

Cynghorydd Sir Ward Hengoed, Caerffili

Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Caerffili

Llywodraethwr Ysgol Gynradd Derwendeg

# Cam-drin Domestig, Ymosodiadau a Chamfanteisio Rhywiol

Mae mwy na chwarter menywod yng Nghymru wedi dioddef camdriniaeth ddomestig ar fwy nag un achlysur, gan gynnwys trais corfforol, rhywiol a seicolegol.

Yn San Steffan, byddwn yn parhau i bwyso am Gofrestr Camdrinwyr Domestig. Ar hyn o bryd, gall yr heddlu ddatgelu gwybodaeth am orffennol treisgar rhywun i gymar os gofynnant am gael gwybod, a elwir yn Gyfraith Clare. Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell. Rydym wedi galw am gyfraith newydd i greu cofrestr o'r rhai a gafwyd yn euog o drais yn y cartref lle byddai'n rhaid i unrhyw un ag euogfarn o drais yn y cartref roi i'r heddlu eu henw, dyddiad geni, cyfeiriad cartref a rhif Yswiriant Gwladol. Byddai'r Mesur hwn yn golygu y byddai'n rhaid i droseddwyr ddweud wrth yr heddlu am unrhyw berthynas maent yn gychwyn a rhoi cyfrifoldeb ar yr heddlu i fynd ati i roi gwybod i bartneriaid newydd am orffennol treisgar troseddwr ailadroddus. Byddai troseddwyr ailadroddus a'r rhai a ddedfrydwyd i 30 mis neu fwy am drais yn y cartref neu reolaeth trwy orfodaeth yn aros ar y gofrestr am gyfnod amhenodol. Byddai angen i droseddwyr ailadroddus hefyd adrodd wrth yr heddlu ar achlysuron penodol, tra byddai swyddogion yn cael gwneud ymweliadau dirybudd.

Fe wnawn yn siŵr fod deddfwriaeth a chanllawiau diweddar ar stelcian, a arweiniwyd gan Blaid Cymru, yn cael ei weithredu'n iawn ledled Cymru fel y gall y sawl sy'n dioddef o stelcian deimlo'n gyfforddus i adrodd am eu pryderon, y caiff y pryderon hyn eu cofnodi, ac y bydd camau'n cael eu cymryd.

Fe wnawn gomisiynu gwasanaethau cefnogi dioddefwyr sy'n cynnig help emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr camdriniaeth yn y cartref i'w helpu i ymdopi a dod atynt eu hunain wedi eu profiad, a'u cefnogi i gael y canlyniad gorau posib trwy'r system cyfiawnder troseddol.

Amcangyfrifir bod un o bob pump o fenywod wedi cael profiad o ryw fath o drais rhywiol ers 16 oed. Mae trais rhywiol yn dal yn drosedd nad yw'n cael ei chrybwyll yn aml, ac y mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn amcangyfrif mai dim ond un o bob chwech o ddioddefwyr trais rhywiol sy'n adrodd am y digwyddiad wrth yr heddlu.

Dim ond tair euogfarn am bob 100 achos o drais rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr dros y flwyddyn a aeth heibio. Er i nifer yr achosion honedig o drais rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu gynyddu o 9 y cant, cwympo wnaeth nifer y cyhuddiadau o 38 y cant, erlyniadau o 33 y cant ac euogfarnau o 27 y cant.

Byddwn yn ei gwneud mor syml ag sydd modd adrodd am gam-drin rhywiol, gan sicrhau yr ymchwilir i bob digwyddiad o gam-drin rhywiol, a chynnig Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol fel cefnogwr ac eiriolwr i bob goroeswr sydd â risg uchel.

Byddwn yn gwneud yn siŵr fod Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn cael eu cyllido'n iawn gyda hyfforddiant digonol i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yno. Byddwn hefyd yn gwneud yn siŵr fod gwasanaethau cwnsela ar gael ac yn derbyn digon o arian, gan y gall dioddefwyr trais rhywiol hefyd ddioddef o faterion eraill yn ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, yn enwedig pan fyddant yn cymryd y rhain fel ffordd o ddelio â'u profiadau.

# Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

Er mwyn lleihau'r difrod a achosir gan gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, a lleihau digwyddiadau o'r fath, byddwn yn:

- Datblygu ein gallu rhagweithiol yn y Tîm Ymchwilio Pedoffiliaid ac Ar-lein.
- Ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer mentrau amlasiantaethol i atal a gwarchod pobl ifanc rhag cam-fanteisio a chamdriniaeth, gan ganolbwyntio ar fentrau ymyriad cynnar.
- Gwella adnabod a thargedu'r sawl sy'n gyfrifol.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd sy'n mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein.

# Diwygio'r System Cyfiawnder Troseddol

Er nad oes gan Gymru reolaeth dros gyfiawnder troseddol - erfyn pwysig i leihau nifer y carcharorion - gall Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt i gyfeirio pobl ymaith oddi wrth y system cyfiawnder troseddol tuag at lwybrau fydd yn helpu gydag adsefydlu, yn lleihau'r nifer sy'n dychwelyd i'r carchar, ac yn mynd i'r afael ag achosion gwaelodol troseddu. Cred Plaid Cymru y dylid defnyddio carchar fel y dewis olaf i gosbi troseddau heb fod yn rhai treisiol, yn hytrach na bod yn ddewis diofyn. Bydd ein Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gwneud popeth yn eu gallu i ddwyn lefelau'r sawl sy'n cael eu carcharu yng Nghymru yn nes at gyfartaledd gorllewin Ewrop.

Gan Gymru y mae'r gyfradd garcharu uchaf yng ngorllewin Ewrop, gydag un o bob 667 o bobl y wlad dan glo. Mae rhoi carchardai ar lefel ddiwydiannol yn y DG yn golygu bod pedwar o bob pump o garchardai yng Nghymru yn orlawn, sy'n arwain at ddirywiad yn yr amodau i'r staff a'r carcharorion.

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau adsefydlu carcharorion yw eu cadw mor agos ag sydd modd at eu cymuned leol a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae 39 y cant o garcharorion Cymru yn cael eu cadw yn Lloegr a 30 y cant o lefydd mewn carchardai yng Nghymru yn dal carcharorion o Loegr. Credwn y dylid cadw carcharorion mor agos at eu cymunedau lleol ag sydd modd.

Nid ydym yn credu mai carchardai enfawr yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wrthweithio troseddau na'r defnydd gorau o'n hadnoddau. Dyna pam y gwnaethom wrthwynebu codi carchar enfawr y Berwyn yn Wrecsam a'r carchar enfawr arfaethedig ym Mhort Talbot a ddilëwyd oherwydd ein gwrthwynebiad.

Gall mynd i'r system cyfiawnder troseddol fod naill ai yn symptom neu'n achos o broblemau mwy tymor hir. Mae'r rhain yn cynnwys digartrefedd, problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Yr oedd bron i 25 y cant o garcharorion Cymreig yn ddigartref pan ddaethant i'r carchar, mae gan dros 90 y cant o garcharorion o leiaf un o bum anhwylder seiciatryddol, a chafwyd cynnydd o 475 y cant yn swm y cyffuriau a gafwyd mewn carchardai llynedd.

Mae tlodi ac afiechyd yn cael eu gwneud yn droseddau. Rhaid i hyn newid trwy ofalu bod gwasanaethau cefnogi yn cael eu cyllido'n ddigonol a thrwy fynd i'r afael a'r materion gwaelodol all arwain at droseddu.

Yn ôl ymchwil gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, mae pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn cael eu cynrychioli'r anghymesur mewn carchardai a'r system cyfiawnder troseddol. Yn 2017, yr oedd pobl dduon wedi'u gorgynrychioli 4.5 gwaith yn y carchar, carcharorion Asiaidd wedi'u gorgynrychioli 1.7 gwaith, ac unigolion o grŵp ethnig cymysg wedi'u gorgynrychioli 2.4 gwaith.

Rhaid i Gymru fod yn atebol ac ymdrin â'r hiliaeth systemaidd ac eithafol sy'n bresennol yn ein cymunedau a'n sefydliadau. Mae'r hiliaeth hwn wedi'i gyd-blethu â hanes y DG o gaethwasiaeth a threfedigaethu, a systemau goruchafiaeth gwyn a ddaeth yn sgil hynny. Bydd Plaid Cymru yn cynnal ymchwiliad eang i wreiddiau a rhwymedïau hiliaeth strwythurol ac anfantais hiliol yng Nghymru.

Bydd Plaid Cymru yn gweithredu yn llawn argymhellion Argymhelliad Lammy i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn triniaeth a deilliannau i bobl dduon a rhai o leiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol, ynghyd ag Adolygiad Angiolini ar farwolaethau a digwyddiadau difrifol tra bod pobl yn cael eu dal gan yr heddlu.

Mae menywod yng Nghymru yn cael tro gwael iawn gan y system cyfiawnder, gyda phob carcharor benywaidd yng Nghymru yn cael eu cadw yn un o ddeuddeg o garchardai menywod Lloegr. Mae hyn yn aml yn golygu gwahanu plant ifanc oddi wrth eu mamau, ac yn gwneud ymweliadau gan deuluoedd yn anodd. Yn ychwanegol at hyn, does dim gwasanaethau iaith Gymraeg o gwbl i fenywod o garcharorion.

Gall y troseddau a gyflawnir gan ddynion a menywod amrywio'n sylweddol. Mae troseddu menywod yn dueddol o fod yn llai difrifol ei natur, sy'n golygu eu bod yn cael dedfrydau byrrach. Yn 2016, cafodd 74 y cant o'r holl fenywod a gafwyd yn euog ddedfrydau o lai na 6 mis.

Mae dedfrydau byrion yn aml yn tarfu llawer ar fywydau menywod a'u teuluoedd. Un canlyniad yw bod menywod sy'n cwblhau dedfrydau byr yn fwy tebygol o aildroseddu na'r rhai a ddedfrydwyd i orchymyn llys.

Byddwn yn defnyddio dedfrydau gohiriedig, trwy Checkpoint Cymru, i'r menywod hynny a gyhuddir o droseddau heb fod yn rhai treisgar, gan leihau maint y tarfu arnynt hwy a'u teuluoedd. Yn hytrach na bod yn rhy 'feddal' tuag at droseddu, mae hyn yn cyd-fynd â'r arferion gorau gan ei fod yn gostwng cyfraddau aildroseddu o gymharu â dedfrydau byrion o garchar.

## Beth rydym yn ei wneud eisoes...

Yng Ngogledd Cymru sefydlodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Plaid Cymru Uned Trosedd Economaidd ac ariannodd swyddog ymroddedig i gefnogi dioddefwyr twyll. Gwnaed hanes hefyd pan ariannodd y Comisiynydd benodiad swyddog cymorth heddlu cyntaf y DU i helpu dioddefwyr caethwasiaeth fodern.

# Llysoedd a Chymorth Cyfreithiol

Gwrthwynebodd Plaid Cymru ostyngiadau Llywodraeth y DG i'r gyllideb cymorth cyfreithiol, sydd wedi golygu bod miloedd o bobl heb allu cyrchu cymorth cyfreithiol. Mewn gwirionedd, yr hyn wnaeth Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 oedd gwrthdroi'r cynllun cymorth cyfreithiol blaenorol, gan dynnu'r rhan fwyaf o faterion cyfreithiol sifil allan o gwmpas cymorth cyfreithiol.

Bydd Plaid Cymru yn gwrthdroi'r toriadau llym fel y gall pobl nad ydynt ar hyn o bryd yn medru cael cymorth cyfreithiol arfer eu hawl i gyfiawnder. Dylai hyn gynnwys sefydlu cynllun asesu symlach a mwy hael o gymorth cyfreithiol sifil, gan sicrhau fod y sawl sy'n derbyn budd-daliadau yn gymwys yn awtomatig am gymorth cyfreithiol, a gwneud cyfraniadau i gymorth cyfreithiol yn fwy fforddiadwy.



## **ANN** GRIFFITH
### HEDDLU GOGLEDD CYMRU

- Cyn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru.
- Uwch-Reolwraig Amddiffyn Plant a Gwaith Cymdeithasol Iechyd Meddwl profiadol.
- Cyn-Gynghorydd Sir etholedig.
- Cyn-benodai Cyhoeddus y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y Llys Gwarchod.

# Darpariaeth Iaith Gymraeg yn y System Cyfiawnder Troseddol

Mae'n hawl sylfaenol i bawb yng Nghymru allu mynd at y system gyfiawnder yn Gymraeg os dymunant. Yn y rhannau o Gymru lle mae'r iaith yn gryf, mae cau llysoedd wedi golygu ei bod yn amhosib i drigolion gyrchu gwasanaethau cyfreithiol, cael cyngor cyfreithiol neu gynnal eu busnes yn eu dewis iaith.

Mae llywodraeth y DG yn gwrthwynebu rheithgorau dwyieithog ar y sail y byddai hyn yn mynd yn groes i egwyddor dewis ar hap, ond eto, mae rhai siaradwyr Cymraeg yn cael eu hatal rhag cyrchu cyfiawnder ar y sail hon. Yr ydym ni'n credu, mewn rhai achosion yng Nghymru, ei bod yn hanfodol i bob aelod o reithgor fod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg gan y byddai hyn yn caniatau i'r rheithgor ddeall y dystiolaeth yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy gyfieithydd, gan sicrhau bod holl gynnwys y dystiolaeth yn cael ei ddeall. Bydd Plaid Cymru yn parhau i bwyso am ddeddfwriaeth i hwyluso rheithgorau dwyieithog, er mwyn sicrhau treial teg.

I garchardai fod yn llefydd sy'n adsefydlu ac yn diwygio, rhaid iddynt fod yn amgylcheddau lle mae'r carcharorion yn teimlo'n gyfforddus. Enghraifft bwysig o hyn yw gwarantu darparu gwasanaethau yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg. I lawer o bobl yng Nghymru, Cymraeg yw iaith eu bywydau bob dydd. Dylai cael eich anfon i garchar, am ba drosedd bynnag, ddal i allu golygu fod pobl yn gallu cael gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg. Dyw gwadu hawliau ieithyddol i garcharor yn gwneud dim ond gwaethygu teimladau o ynysu a bod ar wahân, a hyn yn ei dro yn cael effaith ddrwg ar iechyd meddwl. Ni ddylai carcharorion sydd a'r Gymraeg yn iaith gyntaf neu yn ddewis iaith gael eu rhoi mewn sefyllfa lle nad oes dim neu fawr ddim cyfle i gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain.

Credwn y dylai carcharorion gael eu cadw yn nes at eu cymunedau, fyddai'n fwy na thebyg o olygu defnyddio'r Gymraeg fel sy'n cael ei hadlewyrchu yn y gymuned lle maent yn perthyn, a lefelau tebyg o staff yn siarad Cymraeg fel yn y gymuned. Byddwn yn pwyso am wella gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai, a gofyniad i sicrhau fod gan bob carchar gyfran briodol o swyddogion carchar sy'n medru'r iaith.

Plaid Cymru
Party of Wales